cylchlythyr ac adolygiad blynyddol ecodyfi 2004

Adolygiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2004-5 gan Aled Griffiths, Cyd-Gadeirydd ecodyfi

Ffermwr Aled Griffiths, Cyd-Gadeirydd ecodyfi

Beth sydd i gyfrif am arbenigrwydd Dyffryn Dyfi? Mae gennym oll ein esboniad personol, siwr o fod – y tirlun, diwylliant, iaith, Owain Glyndwr, y Ganolfan Dechnoleg Amgen....ac rydym yn derbyn cydnabyddiaeth gynyddol oherwydd ein llwyddiant i ddod â'r rhain ynghyd. Mae ecodyfi yn ganolog i hyn oll ac y mae'n waith pwysig.

Ar un lefel yr hyn sy'n digwydd yw bod pobl, adnoddau naturiol a gweithgaredd busnes yn dod ynghyd er mwyn gwella ansawdd ein bywydau dros y tymor hir. Dengys erthyglau yn y cylchlythyr enghreifftiau o'n gwaith effeithiol o fewn cymunedau penodol ac ar bynciau a chynlluniau neilltuol.

Mae hefyd ynglyn â dod â phobl ynghyd. Mae'r arbenigedd a'r syniadau newydd ddaeth i'r cylch yn ystod y 30 mlynedd diwethaf bellach yn rhan annatod o gryfderau'r dyffryn – gyda llawer o'r rhinweddau hyn yn cyd-fynd yn dda â gwerthoedd traddodiadol fel parchu'r tir. Ond mae cryn dipyn o waith yn aros os ydym am lwyddo i chwalu'r muriau sy'n gwahanu gwahanol rannau o'n cymdeithas.

Un o uchafbwyntiau 2004 yn bersonol oedd y gynhadledd a drefnwyd gennym ym mis Mehefin ar gynllun Gwarchodfa Biosffer Dyfi. Ar yr olwg gyntaf gellid tybio mai menter amgylcheddol yw hon, ond dyma ganfod y bydd modd i ni ddefnyddio'r dynodiad UNESCO nodedig hwn i helpu ffermwyr a chryfhau'r Gymraeg yn y cylch yn ogystal â gwarchod ein cynefinoedd ac annog twristiaeth gyfrifol.

Ffarweliwyd â'r Cyd-Gadeirydd Nic Dunkley eleni, un o aelodau mwyaf gweithgar bwrdd ecodyfi. Dymunaf ddiolch yn fawr iawn iddi am yr holl waith caled a gyflawnodd.

Rydym wrth ein boddau bod Awdurdod Datblygu Cymru ac Amgylchedd Cymru wedi cytuno i'n cefnogi ni am dair blynedd arall. Hwyrach mai'r hyn a ystyrient yn arbennig yw cymuned sy'n awyddus i sicrhau'r budd sy'n deillio o warchod a defnyddio ei hasedau amgylcheddol a diwylliannol. Adfywio cymunedol cynaliadwy yw ein henw ni ar hyn. Dewch i ymuno â ni.

Mawrth 2005

Beth yw ecodyfi?

- Grwp adfywio cymunedol Dyffryn Dyfi
- Gyda chynlluniau ym meysydd gwastraff, ynni adnewyddadwy, twristiaeth, cynllunio cymunedol, cludiant a mwy
- Yn ymroddi i gryfhau'r economi lleol drwy oruchwylio adnoddau naturiol a diwylliannol yn ofalus
- Dan reolaeth Bwrdd ag arno 17 o ffermwyr lleol, pobl fusnes a gwirfoddolwyr eraill
- Yn derbyn nawdd gan Awdurdod Datblygu Cymru

Gwen Lloyd a Charles Arch, y ddau'n ffermwyr lleol, yn trafod garddwriaeth yng Nghynhadledd Biosffer Dyfi.

Anogaeth i Arddwriaeth

Yn 2004 sefydlasom gynllun i hybu garddwriaeth ymysg ffermwyr Dyffryn Dyfi. Bu Charles Arch ac Aled Griffiths, cyfarwyddwyr ecodyfi yn cydweithio â Tom O'Kane ecodyfi a Gwen Lloyd, Cyswllt Ffermio. Nod y cynllun yw sicrhau y cynhyrchir mwy o ffrwythau a llysiau yn lleol er mwyn lleihau ar gludiant gwastraffus, cadw arian o fewn yr economi lleol, annog arallgyfeirio ym myd ffermio a gwella bwyd pobl leol. Buom yn ymweld â nifer o ffermydd yn ystod y flwyddyn ac mae ein gwaith ar ganfod dulliau o hybu cynhyrchu lleol yn parhau.

Cefnogaeth a chynhorthwy i gludiant cynaliadwy

Bu ecodyfi wrthi'n brysur yn gwneud teithio ar fws yn hwylus ac yn hwyl! Dechreuwyd ar ddilyniant i *Teithio o gwmpas Dyffryn Dyfi* eleni. sef Cynllun Canllaw Teithio Dyfi, fydd yn para am dair blynedd. Y nod yw hyrwyddo posibiliadau teithio amgenach na'r car ymysg ardalwyr ac ymwelwyr â Dyffryn Dyfi. Mae cynrychiolwyr cludiant yng Nghynghorau Ceredigion, Gwynedd a Phowys a Lloyds coaches oll yn llawn brwdfrydedd ac yn barod i roi cefnogaeth ariannol i'r cynllun. Yn ôl Joy Jones, Canolfan Croeso Machynlleth "Dyma un o'n taflenni mwyaf poblogaidd"

Bwrdd ecodyfi

Aled Griffiths, Glantwymyn, Cyd-Gadeirydd 2003-
Alun Jones, Cadfarch
Andy Rowland, Machynlleth
Charles Arch, Pennal
Ellen ap Gwynn, Ceulanamaesmawr
Gill Jones, Glantwymyn
Guy Pargeter, Llangynfelin
Jonathan Hill, Machynlleth
Marit Olsson, Corris
Martin Ashby, Glantwymyn, Cyd-Gadeirydd 2005-
Nick Smyth
Nicola Dunkley, Llangynfelin, Cyd-Gadeirydd 2003-5
Paul Allen, Corris
Peter Jones, Cadfarch
Ruth Owen, Corris
Teresa Walters, Borth
Tom O'Kane, Llangynfelin
Ursula Byrne, Ysgubor y Coed

Ecodyfi yn cefnogi'r economi lleol

"Rydym am ofalu bod ein cymuned yn elwa ar ynni'r gwynt", meddai John Williams, Cadeirydd Bro Dyfi Community Renewables

Cynyddu Pwer y Bobl

Mae ecodyfi yn helpu aelodau Bro Dyfi Community Renewables, cydweithredfa ynni adnewyddadwy Canolbarth Cymru, i ddatblygu ei ail brosiect - tyrbin 500 cilowat ar Fynydd Glandulas, Pantperthog. "Edrychwn ymlaen at groesawu cyfranddeiliaid newydd er mwyn gallu cyflawni rhagor. Mae newid hinsawdd yn fygythiad i bawb ohonom, a'n bwriad yw sicrhau y bydd ein cymuned yn elwa ar ynni'r gwynt", meddai John Williams, Cadeirydd BDCR.

Mae'r grwp eisoes yn berchen ar dyrbin 75 cilowat yng Nghilgwyn, ger Machynlleth, fu'n cynhyrchu ynni glân ers mis Ebrill 2003. Ym mis Rhagfyr 2004 gosodwyd record cynhyrchu o 14,700 cilowat awr ac yn Ionawr 2005 cynhyrchwyd 17,127 o unedau. Mae cartrefi lleol yn defnyddio hanner cilowat yn barhaol ar gyfartaledd, felly roedd yr allbwn yma'n cyfateb i ddefnydd bron i 50 o gartrefi arferol yn ystod mis Ionawr.

Y 54 o gyfranddeiliaid yw aelodau BDCR, gyda hanner cant ohonynt yn byw yn Nyffryn Dyfi. Mae'r rhandaliadau a dderbyniant yn cadw'r elw yn yr economi lleol, yn wahanol i arian sy'n cael ei wario ar y cyfleustodau mawr, nad oes unrhyw obaith iddo gefnogi swyddi lleol. Maen nhw bellach yn cyfrannu o'u profiad i'r adolygiad sy'n cael ei gynnal ar strategaeth newid hinsawdd y DU.

Barn y gydweithredfa yw na ddylid diystyru gwerth cynlluniau bychain o fewn y gymuned tra'n chwilio am fesurau mwy dramatig.

"Mae pob cyfraniad yn werthfawr", meddai John, gan gyfeirio at y 7.4 tunnell fetrig o garbon deuocsid a arbedwyd ym mis Ionawr yn unig drwy i gyflenwad gorsafoedd tanwydd ffosil gael ei ostwng o ganlyniad i gynnyrch tyrbin "Pwer y Bobl".

Enillodd ecodyfi a BDCR rhyngddynt wobr nodedig Eurosolar UK ar gyfer menter fasnachol orau 2004. Cymeradwyodd y beirniaid eu "beiddgarwch a'u penderfyniad wrth gyflawni hyn fel cymuned ac am ddangos sut y gellir sylweddoli cynllun o'r fath".

Rhagor o wybodaeth: http://www.ecodyfi.org.uk/energy/energybdcrcym.htm

Mae Will Lloyd Williams, cigydd lleol gwobrwyedig, yn credu bod "rheswm yn dweud y dylech siopio'n lleol"

Yn bagio siopio lleol

Cadwch lygad am fagiau siopio ecodyfi, ar gael am ddim ond £4 o Dy Bro Ddyfi, a byddwch yn gwneud eich rhan dros yr economi lleol A'R amgylchedd. Mae'r slogan ar y bag yn hyrwyddo cynhyrchwyr lleol, bwyta bwydydd iach a gynhyrchwyd yn lleol, a lleihau milltiroedd bwyd - ac mae'r bag ynddo'i hun yn fodd o osgoi defnyddio plastig a deflir yn syth.

Eglurodd Will Lloyd Williams, cigydd lleol a Chadeirydd Siambr Fasnach Machynlleth bod siopio'n lleol yn sicrhau "bod yr arian yn cylchredeg yn yr economi lleol ac yn ei gadw yno. Pan werthaf lawer o gig, bydd y ffermwyr sy'n ei gyflenwi i mi yn ennill mwy o arian, ac o'r herwydd bydd ganddynt ragor i'w wario ar nwyddau lleol. Ac yn y blaen ac yn y blaen. Mae rheswm yn dweud y dylech siopio'n lleol, ac rwyf yn falch o weld ecodyfi yn ei hybu."

Gweithio prynu bwyta tyfu
YN LLEOL LOCAL
working buying eating growing
www.ecodyfi.org.uk

Llunnir y bagiau â jiwt, cynnyrch sy'n naturiol a phydradwy. Pan gaiff ei daflu ar ddiwedd oes hir, bydd y bag yn pydru'n llwyr gan adael maetholion gwerthfawr yn unig ar ei ôl.

Ar y cli-machx. Llun: David Perrott, Beicio Mynydd Dyfi

Beicwyr yn rhoi hwb i'r

Darparodd ecodyfi wasanaethau codi arian a rheoli prosiectau ar gyfer llwybr newydd Beicio Mynydd Dyfi yng Ngheinws, y cli-machx,

Nod y grwp yw sicrhau y daw £250,000 yn ychwanegol o arian ymwelwyr i mewn i'r gymuned leol eleni drwy wariant ar lety, tai bwyta, tafarndai a siopau. Byddant yn gweithio gyda'r Bwrdd Croeso i gynnig hyfforddiant "croesawu" i ddarparwyr y cylch yn ystod y Gwanwyn, er mwyn bod yn barod ar gyfer yr hyn fydd, yn ôl gobeithion David Perrott, Cadeirydd y grwp, yn "dwf mawr mewn beicio mynydd".

Noddwyd y cynllun gan Adfywio, cyd-gronfa Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop, y Comisiwn Coedwigaeth, Cyngor Sir Powys a phwyllgor digwyddiadau'r Dyfi Enduro.

Tyfu ger y Ddyfi!

Rydym yn awr yn annog garddwyr i fynd ati i dyfu hefyd, ac yn cynnig hyfforddiant gardd organig yn rhad ac am ddim. Nid oes lle ar ôl ar gyfer ein cwrs ymarferol eleni, ond cysylltwch â ni ar unwaith os am ymuno â'n cwrs drwy'r post neu dros y we. Gweler www.ecodyfi.org.uk/growing/indexc.htm

Ecodyfi yn gweithio

Clytiau Go Iawn Amdani?

Lansiwyd 'prawf clytiau go iawn' ecodyfi ym mis Gorffennaf 2004. Cafodd 5 pâr o rieni, yn ogystal â'r rhai a fu'n dilyn yr hanes yn y wasg, eu hannog gan yr arbrawf i ystyried defnyddio clytiau golchadwy.

Rhoddwyd amrywiaeth o glytiau golchadwy modern i'r rhieni drwy gymorth nawdd a dderbyniwyd gan Amgylchedd Cymru ac yna gofynnwyd iddynt roi gwybod i ni beth ddigwyddodd.

Pan holwyd sut brofiad a gafwyd gyda'r clytiau, roeddynt i gyd wedi synnu o'r ochr orau, ac yn barnu fod y clytiau'n llawer haws i'w defnyddio na'r disgwyl.

Roedd teimlo'n fodlon oherwydd parchu'r amgylchedd yn un rheswm i'w defnyddio. "Mae gwybod nad ydym ni'n ychwanegu at y sbwriel sy'n cael ei gladdu bob wythnos yn wych – ac yn sylfaen da i Angharad" meddai Danielle, sy'n fam newydd. Cyfeiriwyd hefyd at rinweddau iach deunydd y clytiau ar groen y baban, amsugniad rhwydd a llai o frech clytiau. Roeddynt i gyd yn ymwybodol o'r arian mawr y gellid ei arbed o beidio â dal i brynu clytiau tafladwy ac roedd rhai o'r rhieni wedi prynu setiau ychwanegol o glytiau go iawn.

Yn ôl y disgwyl bu rhai problemau, er enghraifft, maint y clytiau ar fabanod newydd-anedig, neu broblemau wrth geisio eu sychu. Er nad oedd y golchi ychwanegol yn broblem i'r rhan fwyaf o'r rhieni, mae un teulu nad oes ganddynt beiriant golchi wedi dechrau defnyddio clytiau tafladwy. Disgwylir adroddiadau pellach gan y rhieni yn ystod y misoedd nesaf.

Rhieni yn trafod eu profiadau gyda Chlytiau Go Iawn

Ceisio barn Ceinws

"Rydym am i bawb deimlo eu bod yn cymryd rhan – a chyfrannu" medd Trish Andrews. Y llun: Pwyllgor Llywio'r ymgynghoriad

Mae ecodyfi yn helpu Grwp Adfywio Heulfryn, corff a sefydlwyd yn ddiweddar, i ddatblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer Ceinws. Yn sgîl cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mai 2004, etholwyd grwp llywio gan Ceinws i fwrw ymlaen gyda'r cynllun. Eu gobaith yw sefydlu safle chwarae, man cyfarfod a chyfleusterau eraill yn safle'r Comisiwn Coedwigaeth. Ond y brif flaenoriaeth yw tai fforddiadwy.

Yn ystod y cyfarfod, datgelwyd canlyniadau'r ymgynghoriad cymunedol diweddar a drefnwyd gan ecodyfi a Chymunedau yn Gyntaf, gyda chefnogaeth Awdurdod Datblygu Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cymuned Glantwymyn. Roedd y bobl yn y cyfarfod yn frwd ynglyn â'r cyfleoedd oedd ar gael yn sgîl parodrwydd y Comisiwn Coedwigaeth i adael i'r gymuned gymryd yr awenau yn y gwaith cynllunio ar gyfer dyfodol y safle.

Pwysleisiodd y Cadeirydd newydd, Trish Andrews, yr hoffai'r grwp i bob rhan o'r pentref "deimlo eu bod yn cymryd rhan – a chyfrannu! Byddwn yn gweithio ar y safle chwarae i ddechrau gan mai hwn fydd yr hawsaf i'w gwblhau", meddai. "Ond rydym yn uchelgeisiol ac mae angen llawer o wirfoddolwyr arnom." "Bu Andy o ecodyfi", meddai "yn help mawr; fe wnaethon nhw sicrhau'r arian, dod â phawb at ei gilydd a'n helpu i gychwyn y gwaith."

Mae nifer o fusnesau bychain y dechnoleg newydd eisoes yn defnyddio un o'r adeiladau gwag dros dro.

Gellir astudio canlyniadau'r ymgynghoriad cymunedol ar-lein yn www.ecodyfi.org.uk

Reditreks: mynd mawr

Tammy a Tegid Humphreys yw perchnogion newydd bodlon byncws Reditreks, Machynlleth ac mae mynd mawr ar y busnes. Eisoes bu 100 o feicwyr mynydd drwy eu drysau (hynod gain).

Llwyddodd Tammy a Tegid hefyd i sicrhau grant cyfalaf gan y Bwrdd Croeso ar gyfer y fenter, drwy gyfrwng cynllun Ardal Twf Twristiaeth Dyffryn Dyfi a weinyddir gan ecodyfi. Nid perchennog byncws prysur yn unig yw Tegid – ef yw'r dyn llaeth lleol hefyd. Bydd hefyd yn neilltuo peth o'i amser prin i arwain teithiau beicio mynydd ac i reoli Beicio Mynydd Dyfi gyda 5 o gyfarwyddwyr lleol eraill.

Bu grwp Beicio Mynydd Dyfi yn gweithio gydag ecodyfi i greu llwybr beicio mynydd cyffrous y cli-machx yng Nghoedwig Dyfi ar bwys Ceinws.

Beth yw cyfrinach yr holl lwyddiant? "Y beicio mynydd!" meddai Tegid "Dyma'r safle gorau yng Ngwledydd Prydain. Dyma pam mae pobol yn dod yma atom ni a pham y byddan nhw'n siwr o ddychwelyd dro ar ôl tro."



Tammy a Tegid y tu allan i Byncws Reditreks, Machynlleth

Mwy o wybodaeth am ecodyfi

Cysylltu ag ecodyfi:

Tŷ Bro Ddyfi,
52 Heol Maengwyn,
Machynlleth, Powys,
SY20 8DT
Ffôn: 01654 703965
info@ecodyfi.org.uk

www.ecodyfi.org.uk

- **Cronfa wybodaeth ar gyfer y gymdeithas gyfan**
- **Ffurflenni ymaelodi ar-lein - ymunwch â ni am £1, mae angen eich cefnogaeth arnom.**

Save Cash & Save the Planet- Cyfeillion y Ddaear.

Awgrymiadau ymarferol ar gyfer lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn y cartref a'r ardd, Crefftau Cartref, cludiant, gwaith, iechyd, bwyd, gwyliau, bancio. Gweler ysgrif ecodyfi yn yr adran 'Time Out'.

Llyfrau

52 Weeks to Change Your World

Allan Shepherd & Caroline Oakley

"Gyda'r llyfr hwn gallwn wneud byd o wahaniaeth" – *Future Forests*
Blwyddyn gron o gyngor creadigol i newid ein byd. Waeth os ydych yn ymgyrchydd cadair esmwyth neu'n weithgar a selog, yn ddyn y medrau neu'n dduwies y pentan, bydd rhywbeth yn y llyfr y gallwch ei wneud i newid pethau.

2004 112tt 1 90217 518 2
100x130mm £4.99

CCB 2005 a bwffe ar gyfer yr aelodau

Peidiwch ag anghofio'r CCB - Nos lau Mehefin 16, 7.30 yng Nghlwb Bowlio Machynlleth

Dod ynghyd

Trefnwyd dawns gymunedol gyntaf ecodyfi ym mis Mehefin 2004. Y bwriad oedd rhoi gwybod i bobl am waith ecodyfi, a hefyd dod â gwahanol rannau o'r gymuned at ei gilydd i gael hwyl.

Byddwn yn cynnal un arall ym mis Mehefin 2005 – edrychwch ar y wefan a Dyddiadur Dyfi – tybed a hoffai eich grwp chi gynorthwyo hefyd?

Trefnydd ecodyfi, Andy Rowland, yn cychwyn y ddawns

Cyllid a nawdd

Incwm 2003/04	**£**
Grantiau a Rhoddion	100,503
Enillion	8,714
Eraill	7,379
cyfanswm	116,596
Gwariant	
Staff	54,420
Ymgynghoriaeth	3,974
Gwybodaeth	10,126
Eraill	25,380
cyfanswm	113,900
Arian dros ben	2,696